**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Ymgynghoriad Statudol ar Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Gareth Jones, Pennaeth Adran Gynorthwyol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Tachwedd 2025** |

## 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyo’r ymateb yn Atodiad 4 fel ymateb Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad statudol ar yr orchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig i Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr.

1.2 Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r ymateb cyn iddo gael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I’R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD

2.1 Fel ymgynghorai statudol, mae’n ofynnol i Gyngor Gwynedd ddarparu ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad statudol ar orchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig y parc cenedlaethol arfaethedig. Mae’r ymgynghoriad statudol wedi cychwyn ar 15 Medi 2025 ac yn cau ar y 8 Rhagfyr 2025.

## 3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

3.1 <u>Cefndir</u>

3.1.1 Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021-2026), nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (a elwid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu ‘AHNE’). Yna comisiynwyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru, fel y corff statudol ar faterion tirwedd, i

werthuso'r achos am y parc cenedlaethol newydd arfaethedig. Cynhelir yr asesiad o fewn tymor presennol y Senedd (2021-2026).

3.1.2 Os bydd CNC yn ystyried bod dynodiad yn briodol ac yn ddymunol, bydd 'gorchymyn dynodi' yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd wedyn yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r gorchymyn dynodi. Os caiff ei gadarnhau, byddai pedwerydd parc cenedlaethol yng Nghymru yn cael ei greu. Y parc newydd cyntaf ers 1957, a'r cyntaf erioed i gael ei greu yn gyfan gwbl yng Nghymru a chan Gymru.

3.1.3 Ardal fach o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn y ffin arfaethedig (ychydig dros 11 km2 a llai na 2% o gyfanswm yr arwynebedd). Llandderfel yw'r unig anheddiad sydd tu mewn i'r ffin. Yn ôl gwybodaeth Cofrestr Tir ac Eiddo'r Cyngor mae 220 cyfeiriad yn yr ardal hefo 185 uned preswyl ac 15 uned masnachol/busnes. Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae maint cyfartalog aelwydydd yn yr ardal yma yn 2.4 felly amcangyfrif poblogaeth sydd yn byw yn yr ardal yma ydy 528. Mae map yn dangos ffin y Parc newydd a pa ran o Wynedd sy'n disgyn i mewn i'r ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol Newydd i'w gael yn atodiad 1 a sydd yn destun yr ymgynghoriad statudol.

3.2 <u>Ymgynghoriadau Blaenorol</u>

3.2.1 Yn 2023, cynhaliodd CNC cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023 ar fap cychwynnol, y cyfeirir ato fel 'Map Ardal Chwilio'.

3.2.2 Cynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 ar ffin ddrafft arfaethedig, y cyfeirir ati fel 'Map Ardal Ymgeisiol'.

3.3 <u>Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad anstatudol rhwng mis Hydref a Gorffennaf 2024</u>

3.3.1 Er fod yr ymgynghoriadau yn ymwneud hefo ffin arfaethedig y parc newydd ac er ei fod ond yn effeithio ar ardal fechan o Wynedd yn unig cododd y Cyngor nifer o bryderon/cwestiynau sef:

- Yr effaith ar brisiau tai
- Yr economi wledig
- Yr economi ymwelwyr a thwristiaeth
- Iaith Gymraeg
- Cynllunio (Polisi a Rheoli Datblygu)
- Cyllideb
- Llywodraethu
- Yr ardal ymgeisiol ac yr angen am Barc Cenedlaethol Newydd

3.3.2 Mae'r tabl yn atodiad 2 yn crynhoi'r pryderon/cwestiynau a godwyd gan Gyngor Gwynedd yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol, ymateb CNC i'r materion a godwyd ac ein sylwadau ar ei ymatebion.

3.3.3 Mae'r tabl yn dangos nad ydym yn fodlon hefo yr ymateb i pump phryder a godwyd sef:

- Iaith Gymraeg
- Cynllunio
- Cyllideb
- Llywodraethu
- Yr ardal ymgeisiol

3.4 Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Presennol

3.4.1 Mae CNC wedi creu ffurflen ymateb ar-lein ar gyfer yr ymgynghoriad sydd ar gael yma (Ymgynghoriad Statudol Parc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr).

3.4.2 Mae ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad i weld yn atodiad 4 sydd yn ymhelaethu ar y pryderon ym mharagraff 3.3.3.

3.5 Ymgynghoriadau a thrafodaethau mewnol

3.5.1 Ar 9 Hydref, fe wnaethon ni gyfarfod ag CNC a'r Cynghorydd Elwyn Edwards i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddo fel yr aelod lleol a gododd y pryderon:

- Yr effaith ar y iaith Gymraeg
- Cyllideb / Gwastraff arian
- Llywodraethu
- Gor dwristiaid

3.6 Camau Nesaf

3.6.1 Bydd angen i'r Cyngor cyflwyno ei sylwadau erbyn 8 Rhagfyr 2025.

3.6.2 Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac os bydd bwrdd CNC yn cytuno, yna cyflwynir gorchymyn dynodi i Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2026. Llywodraeth Cymru sydd gyda'r awdurdod i ddynodi parc cenedlaethol neu beidio.

3.6.3 Derbyniwyd nodyn briffio gan CNC ar y 31 Hydref yn nodi:

"Bydd unrhyw wrthwynebiad a wneir gan awdurdod lleol (nad yw'n cael ei dynnu'n ôl) yn sbarduno ymchwiliad lleol. Os cynhelir ymchwiliad lleol, gwneir

asesiad o'r goblygiadau ariannol ac adnoddau, natur y gwrthwynebiadau a sut y gall awdurdodau lleol sy'n gwrthwynebu ddewis cymryd rhan."

Mae copi o'r nodyn briffio i'w weld yn atodiad 5.

---

**Sylwadau'r swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro**

Mae hwn yn ymgynghoriad arwyddocaol sydd yn cyfiawnhau sylw Cabinet. Er fod y rhan o Wynedd sydd yn disgyn o fewn ffiniau y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn gymharol fychan o ran maint daearyddol gall hyn gael oblygiadau o sylwedd i Gyngor Gwynedd. Mae'n briodol fod yr ymateb drafft yn amlygu hyn.

**Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1: Map o Parc Arfaethedig Glyndŵr
Atodiad 2: Ymateb CNC i sylwadau Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad blaenorol
Atodiad 3: Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog
Atodiad 4: Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Statudol
Atodiad 5: Nodyn Briffio CNC 31 Hydref